Cais i dalu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'ch landlord

Ar gyfer beth mae'r ffurflen?

Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau'n gorfod gwneud pob taliad o'r Lwfans Tai Lleol (LHA) yn uniongyrchol i chi, ond gallwn wneud taliadau'n uniongyrchol i'ch landlord os yw'n anodd i chi reoli eich materion eich hun. Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn helpu i ni benderfynu a yw'n briodol i dalu LHA yn uniongyrchol i'ch landlord. Efallai na fydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau, gan y bydd pob achos yn wahanol, ond ceisiwch roi gymaint o wybodaeth a thystiolaeth ag y gallwch.

Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Y tenant ddylai lenwi'r ffurflen hon ond gall y canlynol ei llenwi ar ran y tenant hefyd:

- teulu neu gyfeillion
- prif ofalwr
- asiantaeth les neu gynghori
- y landlord neu asiant gosod
- gwasanaeth arall o fewn y cyngor

Rhaid i denantiaid lofnodi'r ffurflen bob amser, a bod yn gwbl ymwybodol y gall arwain at dalu eu budd-dal yn uniongyrchol i'r landlord am eu rhent.

Beth ddylid ei anfon gyda'r ffurflen hon?

Mae angen rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi'r dystiolaeth ar y ffurflen hon. Gall hyn ddod o amrywiol ffynonellau, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol rhywun, er enghraifft un o'r canlynol sy'n berthnasol i'r tenantiaid.

- teulu a/neu gyfeillion
- landlord
- meddyg teulu (GP)
- swyddog prawf
- gweithiwr cymdeithasol
- prif ofalwr
- grwpiau lles
- yr Adran Gwaith a Phensiynau

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Cyfeiriwch at y nodiadau cyfarwyddyd i gael rhagor o gyngor ar sut i lenwi'r ffurflen hon a beth sy'n dystiolaeth dderbyniol.

Nodiadau cyfarwyddyd

Cyflwyniad

- Bydd taliadau Lwfans Tai Lleol (LHA) yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i denantiaid. Fodd bynnag, dan rai amgylchiadau penodol gall y taliadau gael eu gwneud i'ch landlord.

- Os ydych yn teimlo y gallai fod yn anodd i chi gynnal eich taliadau rhent ac y byddai'n haws i chi gael talu eich landlord yn uniongyrchol, llenwch y ffurflen hon. Gallwch ei llenwi eich hun neu os na allwch ddod i ben, gall rhywun arall eich helpu. Ar flaen y ffurflen fe welwch pwy all eich helpu.

- Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddod i benderfyniad. Rhoddwch gymaint o wybodaeth a thystiolaeth berthnasol ag y gallwch i ni er mwyn i ni allu gwneud penderfyniad cyflym. Defnyddiwch bapur ychwanegol os nad oes digon o le. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen casglu rhagor o dystiolaeth neu siarad â chi a/neu eich cynrychiolydd. Os oes angen gwneud hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch.

- Byddwn yn ysgrifennu atoch a phawb arall perthnasol gyda phenderfyniad a'r hawl i apelio.

- Os byddwn yn penderfynu talu eich landlord, bydd y landlord yn derbyn LHA hyd at faint y rhent a gontractiwyd yn unig. Os oes unrhyw arian dros ben, bydd hyn yn cael ei dalu i chi.

Cwestiynau

1 - 5 Cofiwch roi eich enw a chyfeiriad yn eglur.

Dylid datgan yn eglur enw unrhyw un sy'n llenwi'r ffurflen ar eich rhan neu sy'n helpu i chi ei llenwi. Mae angen i ni wybod eu cyfeiriad ac a ydynt o asiantaeth statudol neu wirfoddol, rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â hwy yn uniongyrchol.

Cofiwch ddweud wrthym hefyd am y berthynas rhyngoch chi â phwy bynnag sy'n llenwi'r ffurflen a pham eu bod yn llenwi'r ffurflen drosoch.

6(a). Dywedwch wrthym am unrhyw anableddau dysgu all ei gwneud yn anodd i chi dalu eich rhent.

Mae hyn yn debygol o fod yn briodol i bobl gydag ychydig o anawsterau dysgu. Dylai'r rhai gydag anableddau difrifol fod â rhywun a benodwyd. Mae anableddau dysgu'n effeithio ar fywydau pobl mewn ffyrdd gwahanol iawn. Gall sgiliau ymarferol bob dydd fod yn anodd i chi fel coginio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus, neu sgiliau cymdeithasol fel cynnal sgwrs. Mewn rhai achosion fel y rhain, gall fod yn briodol talu

budd-dal yn uniongyrchol i'ch landlord rhag i chi fynd i ôl-ddyledion rhent.

(b) Dywedwch wrthym am unrhyw anableddau corfforol neu gyflyrau meddygol all ei gwneud yn anodd i chi dalu eich rhent.

Mae anableddau corfforol yn amrywio'n fawr iawn, ac efallai mai dim ond mewn ychydig achosion y bydd yn effeithio ar sut mae rhywun yn dod i ben. Er enghraifft, gall amhariad difrifol ar eich golwg a'ch clyw olygu fod gennych broblemau ychwanegol gyda chyfathrebu, symudedd a chael gwybodaeth. Efallai eich bod yn gorfod aros yn agos at offer meddygol. Yn yr un modd, fe all rhai anableddau ei gwneud yn anodd i chi fynd allan neu wrth fynd i mewn i adeiladau cyhoeddus. Efallai fod gennych broblemau corfforol hefyd oherwydd eich oed.

(c) Dywedwch wrthym am unrhyw broblemau iechyd y meddwl sy'n ei gwneud yn anodd i chi dalu eich rhent.

Gall fod yn anoddach i rai pobl sy'n ymdopi ag afiechyd y meddwl ddod i ben â'u materion ariannol a gallant deimlo bod trefnu taliadau rhent yn ormod iddynt.

Y ffurfiau mwyaf cyffredin ar afiechyd y meddwl yw:

* Gwewyr Meddwl * Dryswch * Anhwylder Cymhellol Obsesiynol
* Ffobias * Anhwylderau Bwyta * Anhwylderau Cymeriad
* Alzheimer * Sgitsoffrenia * Iselder Gorffwyll (Iselder Deubegwn)
* Iselder * Iselder wedi Geni.

(d) Ydych chi'n gaeth i rywbeth?

Gall rhywun sy'n gaeth i rywbeth (neu gyda hanes o hynny), er enghraifft alcohol, cyffuriau neu hapchwarae, ei chael yn anodd blaenoriaethu eu gwariant. Felly, gall fod yn fwy defnyddiol talu budd-dal yn uniongyrchol i'ch landlord.

(e) Ydych chi wedi ei chael yn anodd dod i ben oherwydd bod arnoch angen cymorth gyda deall Cymraeg neu Saesneg neu'n ei chael yn anodd darllen ac ysgrifennu Cymraeg neu Saesneg?

Gall y rhwystrau sy'n wynebu pobl nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu sy'n ei chael yn anodd darllen ac ysgrifennu Cymraeg neu Saesneg atal eu gallu i ddelio ag asiantaethau a sefydliadau. Gall hyn ymestyn i fanciau a/neu landlordiaid neu asiantau gosod wrth geisio trefnu taliadau rhent a derbyn budd-daliadau. Mewn rhai achosion gall fod orau i chi gael talu eich budd-dal yn uniongyrchol i'r landlord tra byddwch yn cael cymorth a chefnogaeth i ddod i ben.

(f) Cofiwch ddweud wrthym am unrhyw newidiadau diweddar sy'n golygu eich bod angen cymorth ychwanegol, neu os ydych yn rhagweld rhai cyn bo hir?

Fe all fod adegau pan fyddwch wedi profi, neu ar fin profi, newid yn eich bywyd sy'n golygu fod arnoch angen cymorth ychwanegol dros gyfnod byr. Gallai hyn fod oherwydd profedigaeth, methiant perthynas (efallai'n dreisiol), newydd adael carchar, dod o'r ysbyty, mynd i ysbyty neu berthynas agos gyda salwch terfynol angheuol.

(g) Ydych chi wedi cael unrhyw broblemau blaenorol wrth gadw at eich taliadau rhent?

Efallai eich bod wedi mynd i ôl-ddyledion rhent yn y gorffennol, sydd wedi arwain at eich troi allan ac efallai fod yn ddigartref. Os ydych yn teimlo bod perygl i hyn ddigwydd eto a'ch bod yn cael help i gynnal eich tenantiaeth bresennol, rhowch fanylion i ni. Efallai y gallwn gynnig cymorth ychwanegol a helpu cadw eich taliadau rhent yn ddiweddar trwy dalu eich LHA i'ch landlord. Os gallwch, rhowch dystiolaeth o gael eich troi allan, bod yn ddigartref neu gysgu dan y sêr o'r blaen.

(h) Oes gennych chi ôl-ddyledion rhent?

Rhowch fanylion unrhyw ôl-ddyledion rhent sydd arnoch ar hyn o bryd. Rhowch dystiolaeth o unrhyw gamau a gymrodd y landlord i adennill y dyledion hyn, e.e. rhybudd troi allan neu lythyr ôl-ddyledion rhent.

(i) Oes gennych chi ddyledion eraill, unrhyw fethdaliad heb ei ryddhau neu ydych chi'n methu agor cyfrif banc?

Os oes gennych ddyledion sylweddol, efallai y cewch eich hun mewn sefyllfa lle na allwch agor cyfrif banc oherwydd statws credyd gwael. Gall hyn fod yn ddyledion difrifol fel methdaliad heb ei ryddhau a Dyfarniadau Llys Sirol, neu'n ddim ond biliau'n cronni fel trydan, nwy, dŵr ac ati.

(j) Ydych chi'n cael cefnogaeth barhaol asiantaeth, sefydliad, cyfaill neu aelod o'r teulu ar hyn o bryd i'ch helpu gyda thaliadau rhent?

Mae cefnogaeth amrywiol sefydliadau ar gael i lawer o bobl i helpu gyda sgiliau sylfaenol. Dywedwch wrthym os ydych yn derbyn unrhyw gymorth neu becynnau gofal.

(k) Oes yna rywbeth yn cael ei dynnu o'ch incwm arall, fel budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau i helpu ad-dalu dyledion?

Gall yr Adran Gwaith a Phensiynau dynnu o'ch budd-dal i dalu ôl-ddyledion rhent, treth y cyngor neu ddyledion am wasanaethau. Efallai fod arian yn cael ei dynnu o'ch enillion i dalu'r Asiantaeth Cynnal Plant neu ad-dalu eich ôl-ddyledion treth y cyngor. Rhowch dystiolaeth os yw hyn yn digwydd i chi.

7) Pa mor hir all fod angen i'ch taliadau gael eu gwneud i'r landlord?

Dywedwch a ydych chi'n disgwyl i'r taliadau i'r landlord fod yn drefniant dros dro neu barhaol. Er enghraifft, gallai fod tra'r ydych yn yr ysbyty neu nes bydd dyledion pwysig eraill wedi cael eu had-dalu.

8) Datganiad y Tenant

Cofiwch lofnodi a dyddio'r ffurflen ac, os oes gennych bartner, cofiwch sicrhau ei fod ef neu hi yn ei llofnodi hefyd. Trwy lofnodi'r ffurflen rydych yn derbyn y gall y wybodaeth a roddwyd gennych arwain at dalu eich budd-dal i'ch landlord.

9) Datganiad rhywun sy'n llenwi'r ffurflen

Os yw rhywun wedi llenwi'r ffurflen ar eich rhan, rhaid iddynt lofnodi'r ffurflen hefyd.

Cysylltiadau Defnyddiol am Gefnogaeth a Chyngor

Canolfan Cyngor ar Bopeth Wrecsam:
35 Ffordd Grosvenor
Wrecsam,
LL11 1BT
Ffôn:
01978 364639

Undeb Credyd Wrecsam:
Undeb Credyd CBSW
1 Arcêd y Gogledd,
Stryt Caer,
LL13 3BB
Ffôn:
01978 266856

Shelter Wrecsam:
Shelter Cymru
Blwch Post 2293,
Wrecsam,
LL13 0FB
Ffôn:
01978 317911

Hawliau Lles Wrecsam:
Hawliau Lles CBSW,
Adeiladau Gladman,
Uned 5 Llys Edison,
Wrecsam
Ffôn:
01978 298254

Barnardos:
Barnardos: Prosiect Cwmpawd
Bryn Hyfryd,
2 Ffordd Grosvenor,
Wrecsam
LL11 1ER
Ffôn:
01978 315130

CAIS I DALU'N UNIONGYRCHOL I LANDLORD

1	**Enw'r tenant**
2	**Cyfeiriad y tenant**
3	**Enw bwy bynnag sy'n llenwi'r ffurflen**
4	**Cyfeiriad a rhif ffôn cysylltu, os nad yr uchod yw'r tenant**
5	**Os nad yw'r tenant yn llenwi'r ffurflen, dywedwch beth yw eich perthynas â'r tenant a'r rheswm dros lenwi'r ffurflen ar eu rhan**
6	**Ar ôl darllen y nodiadau cyfarwyddyd, eglurwch pam eich bod eisiau gwneud cais i dalu LHA yn uniongyrchol i'ch landlord.**

7 Pa mor hir allech chi fod angen cael gwneud taliadau i'r landlord?

13 wythnos 26 wythnos 52 wythnos amhenodol

Os yn hwy, rhowch fanylion a dywedwch wrthym pam?

8 Datganiad y Tenant

• Mae'r wybodaeth a roddwyd yn wir a chywir
• Rwy'n gwneud cais am gael talu fy Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'm landlord i dalu'r rhent a gontractiwyd
• Byddaf yn cysylltu â'r Gwasanaeth Budd-daliadau os wy'n teimlo fy mod yn gallu derbyn fy mudd-dal yn uniongyrchol

Rwyf wedi darllen a deall y datganiad.
Cofiwch lofnodi a dyddio'r ffurflen isod (os oes gennych bartner dylai ef neu hi lofnodi isod hefyd)

Chi Eich Partner

Dyddiad Dyddiad

COFIWCH GYNNWYS TYSTIOLAETH DDOGFENNOL I GEFNOGI EICH CAIS

9 Pwy bynnag sy'n llenwi'r ffurflen, os nad y tenant

• Mae'r wybodaeth a roddwyd yn wir a chywir
• Rwy'n credu ei fod er budd y tenant i dalu Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'w landlord
Rwyf wedi darllen a deall y datganiad.
Cofiwch lofnodi a dyddio'r ffurflen isod.

Enw Llofnod

Dyddiad

Dychwelwch y ffurflen hon, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol i ategu'r wybodaeth a ddarparwyd, i

Adran Budd-daliadau Tai, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR

Cyfeirnod – LHA/DPF1